Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Bron Brawf Cymru, Abertawe, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Dyddiad yr arolygiad: 8 a 9 Ebrill 2025
Dyddiad cyhoeddi: 10 Gorffennaf 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80633-162-8

© Hawlfraint y Goron 2025

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf.

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ....................................................5

2. Crynodeb o'r arolygiad ....................................................6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ....................................................8

- Ansawdd Profiad y Claf ....................................................8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .................................... 11
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .................................... 23

4. Y camau nesaf .................................................... 26

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........... 27

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith .................................... 28

Atodiad C - Cynllun gwella.................................................... 29

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o Bron Brawf Cymru, Abertawe, Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 8 a 9 Ebrill 2025. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ystyried y ffordd roedd yr adran yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ac yn bodloni'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC a dau Uwch-gynghorydd Clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA), a gyflawnodd swyddogaeth gynghori. Arweiniwyd y tîm gan Uwch-arolygydd Gofal Iechyd.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 28 o holiaduron gan gleientiaid neu eu gofalwyr a chwblhawyd 20 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am eu profiadau o ddefnyddio gwasanaeth Bron Brawf Cymru, Abertawe. Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn ac yn trin y cleifion â chwrteisi, parch a charedigrwydd. Gwelsom hefyd fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn diogelu ac yn hyrwyddo hawliau'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu gwasanaeth hyblyg i fenywod a darparu capasiti sgrinio ychwanegol yn yr adran pan nad oedd y faniau sgrinio symudol ar waith
- Rhoddodd cleientiaid adborth a sylwadau cadarnhaol am agwedd y staff a oedd yn gofalu amdanynt
- Ymrwymiad i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg
- Darparu amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i bobl. Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth helaeth gan gynnwys Gweithdrefnau'r Cyflogwyr a oedd wedi'u hadolygu, eu diweddaru, eu cadarnhau a'u rhannu â staff.

Roedd y lleoliad yn lân ac yn daclus, heb annibendod. Roedd yr ystafelloedd yn fodern ac roedd y cyfarpar mewn cyflwr da.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Parhau i fireinio a diweddaru Gweithdrefnau'r Cyflogwr yn unol â'r argymhellion o'r arolygiad, arferion gorau, adborth y staff a diwygiadau i'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R).
- Adolygu a diweddaru prosesau a chynlluniau clinigol ac archwilio IR(ME)R er mwyn cynnwys amserlen archwilio, targedau cydymffurfio priodol a dulliau adrodd safonol, dysgu a phrosesau ail-archwilio.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Diweddaru Gweithdrefnau'r Cyflogwr a oedd yn destun rheoli dogfennau ac ar gael i'r holl staff, gan gynnwys staff oedd yn gweithio ar unedau sgrinio symudol.
- Datblygwyd fideos hyfforddiant IR(ME)R gan yr adran ffiseg feddygol ar gyfer y staff i gyd
- Cyfleu manteision a risgiau cysylltiadau mamograffeg i ddefnyddwyr y gwasanaeth
- Dealltwriaeth y staff o IR(ME)R a hyfforddiant parhaus o gwmpas y rheoliadau
- Comisiynu a phrofi cyfarpar newydd
- Rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer y cyfarpar
- Amgylchedd glân, modern a chroesawgar, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, heb unrhyw beryglon amlwg i'r rhai sy'n ymweld â'r lleoliad
- Trefniadau diogelu.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Cawsom y Ffurflen Hunanasesu wedi'i chwblhau a'r ddogfennaeth gysylltiedig mewn modd amserol.

Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru oedd y cyflogwr dynodedig o dan IR(ME)R. Roedd yr ymddiriedolaeth yn gallu dangos strwythur gwell ar gyfer llinellau adrodd ac atebolrwydd o dan IR(ME)R yn ystod yr arolygiad.

Gwnaethom gyfarfod â thîm rheoli ymroddedig sydd wedi gweithio'n galed mewn cyfnod amser byr i ddiweddaru dogfennau a phrosesau yn briodol, i sicrhau bod cydymffurfiaeth IR(ME)R â Bron Brawf Cymru ar waith ac yn gyson ar draws tri safle Bron Brawf Cymru.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Tîm o staff angerddol, prysur ac ymroddedig a oedd yn poeni am y cleientiaid ac am wasanaeth Bron Brawf Cymru.
- Roedd y polisïau, y gweithdrefnau a'r dogfennau yn fanwl ac wedi'u hysgrifennu'n dda, eu cadarnhau, yn cynnwys dull rheoli fersiwn ac yn hygyrch i'r staff
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o IR(ME)R ar gyfer yr holl ddeiliaid dyletswydd
- Cydymffurfio â hyfforddiant mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan gleifion

Cyhoeddodd AGIC holiaduron ar-lein a phapur er mwyn casglu safbwyntiau cleientiaid a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth hwn. Cawsom gyfanswm o 28 o ymatebion gan gleientiaid yn y lleoliad hwn. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan ym mhob maes, gyda phawb yn dweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda.'

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> ***"Gwasanaeth gwych, staff anhygoel, cyfeillgar iawn a llawn gwybodaeth."***
>
> ***"Staff cyfeillgar iawn. Llawn gwybodaeth. Lleoliad braf a glân."***

### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

**Hybu iechyd**
Roedd posteri dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) wedi'u harddangos yn cynghori'r rhai a oedd yn bresennol ar gyfer profion sgrinio i ddweud wrth y staff os oeddent yn bwydo ar y fron neu os gallent fod yn feichiog. Gwelsom fod deunydd hybu iechyd wedi'i arddangos yn yr ardaloedd aros yn yr adran. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am fanteision peidio â smygu, lleihau risgiau canser y fron, yn ogystal â bod yn gyfarwydd â'ch bronnau.

**Gofal urddasol a pharchus**
Roedd trefniadau addas ar waith i hyrwyddo preifatrwydd y cleient. Cadarnhaodd pawb a gwblhaodd yr holiadur y canlynol:

- Bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch
- Bod mesurau ar waith i amddiffyn eu preifatrwydd
- Eu bod wedi gallu siarad â'r staff am eu triniaeth heb i gleifion eraill glywed
- Bod y staff wedi gwrando arnynt.

**Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Roedd pawb a atebodd yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth a bod y staff wedi esbonio iddynt beth roeddent yn ei wneud.

Cadarnhaodd pawb eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision y cysylltiad. Roedd pawb y gwnaethom siarad â nhw yn canmol eu gofal hefyd.

Gwnaeth un sylw ar y gofal a gafodd:

> ***"Roedd y Radiograffwyr a oedd yn gofalu amdanaf yn broffesiynol ac yn ofalgar tu hwnt. Eglurodd y Meddyg bopeth a gwnaeth i mi deimlo'n gyfforddus iawn. Roedd yr adran yn lân ac yn groesawgar iawn. Tîm gwych, diolch!"***

## Amserol

**Gofal amserol**

Esboniodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y trefniadau a oedd ar waith i gyfathrebu ynghylch apwyntiadau sgrinio, amseroedd ac unrhyw oedi i apwyntiadau. Byddai'r staff yn rhoi gwybod i'r cleientiaid os byddai oedi o ran amser eu hapwyntiad.

Roedd cleientiaid yn bresennol am brofion sgrinio drwy gydol ein harolygiad, ac ni welwyd unrhyw oedi o ran apwyntiadau. Eglurodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod hyblygrwydd yn yr adran i ychwanegu capasiti sgrinio ychwanegol i gleientiaid pe bai'r faniau sgrinio symudol yn cael eu trwsio neu eu gwasanaethu. **Nodwyd bod hyn yn arfer canmoladwy.**

## Teg

**Cyfathrebu ac Iaith**

Roedd yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol yn yr adran. Gwelsom fod posteri gwybodaeth dwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael eu harddangos yn glir. Gwelsom fod arwyddion dwyieithog clir wedi'u gosod i gyfeirio ymwelwyr i'r adran. Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod yn siarad Cymraeg ac roedd modd nodi'r rhain drwy wisgo logo 'Iaith Gwaith'.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw rai o'r trefniadau sydd ar waith i helpu pobl ag anawsterau clywed a'r rhai nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Roedd dolen sain ar gael yn y brif dderbynfa. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau cyfieithu pe bai eu hangen i gefnogi cleientiaid a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth. Cadarnhaodd y staff fod dyfais

cyfieithu symudol ar gael i gefnogi cleifion nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Roedd hysbysiadau Cymraeg a Saesneg 'Gweithio i Wella' i'w gweld yn yr ardaloedd i gleifion ac roedd poster dwyieithog yn cael ei arddangos yn gofyn am adborth y cleientiaid am yr adran. Dangoswyd gwybodaeth Llais ac roedd bwrdd "dywedoch chi, gwnaethom ni" yn rhoi manylion camau gweithredu roedd y staff wedi'u cymryd yn dilyn adborth y cleientiaid. Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau sut y byddent yn ymdrin ag adborth cadarnhaol a negyddol.

**Hawliau a chydraddoldeb**

Gwelsom fod hawliau cleientiaid yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo yn yr adran. Esboniodd y staff y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn hygyrch i bawb. Roedd yr adran yn hygyrch ac yn cynnwys drysau llydan, coridorau clir ac ystafelloedd trin mawr. Roedd modd addasu'r cyfarpar sgrinio i archwilio'r rheini na allai sefyll ar gyfer apwyntiadau sgrinio'r fron. Cadarnhaodd y staff fod apwyntiadau hirach ar gael i'r cleientiaid hynny yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt. Roedd lifft risiau ar gael i unrhyw un gyda gofynion symudedd i gyrraedd y swyddfeydd ar loriau uchaf yr adeilad.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn orfodol i bob aelod o'r staff, a gwelsom gofnodion a oedd yn dangos lefel uchel o gydymffurfiaeth. Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn ar-lein. Roedd gan y staff ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo hawliau cleientiaid pan fyddent yn dod i'r adran. Gallent gadarnhau'r trefniadau sydd ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sefydliad.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (fel y'u diwygiwyd)[1]

**Dyletswyddau'r Cyflogwr: sefydlu gweithdrefnau, protocolau a rhaglenni sicrhau ansawdd cyffredinol**

*Gweithdrefnau a phrotocolau*
Darparwyd dogfennau cyn yr arolygiad fel rhan o'r Ffurflen Hunanasesu wedi'i chwblhau.

Gwnaethom edrych ar yr holl ddogfennau mewn perthynas ag IR(ME)R a gyflwynwyd cyn yr arolygiad a siarad â deiliaid dyletswydd ac uwch-reolwyr i gadarnhau eu bod yn deall y prosesau a'r arferion. Ar y cyfan, gwnaethom nodi'r canlynol mewn perthynas â'r polisïau a'r gweithdrefnau:

- Maent wedi gwella cryn dipyn ers ein harolygiad diwethaf a bellach yn cydymffurfio ag IR(ME)R
- Cawsant eu hadolygu a'u diweddaru, a'u cadarnhau yn ddiweddar ac maent ar gael i bob deiliad dyletswydd (gan gynnwys y rhai sy'n gweithio ar unedau symudol)
- Cafodd y fersiynau eu dyddio a'u rheoli gyda dyddiadau adolygu wedi'u nodi.

Roedd gweithdrefnau'r cyflogwr newydd eu diweddaru a adolygwyd yn rhoi cyfarwyddiadau clir a manwl ynghylch sut a phryd y dylid rhoi proses ar waith ac yn nodi pwy oedd yn gyfrifol am gyflawni'r tasgau hyn. Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau bod y Gweithdrefnau'r Cyflogwr diwygiedig hyn yn llawer gwell, yn haws eu canfod a'u dilyn ac ar gael i'r holl staff. Roedd y dogfennau yn adlewyrchu'r ymarfer clinigol yn y lleoliad gan mwyaf.

Gallai'r aelodau staff y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau, pan ofynnwyd iddynt, ble y gallent gael gafael ar weithdrefnau'r cyflogwr.

Argymhellwyd rhai gwelliannau a diwygiadau penodol fel rhan o'r arolygiad, rhannwyd y rhain gydag arweinwyr adrannau drwy gyfarfod gwerthuso'r ffurflen hunanasesu a'r arolygiad.

---

[1] Fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Diwygio) 2018 a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Diwygio) 2024

*Canllawiau atgyfeirio*
Adolygwyd gweithdrefnau'r cyflogwr cyn yr arolygiad, roedd y ddogfen hon yn nodi unigolion sydd â hawl i weithredu fel atgyfeiriwr, ymarferydd a gweithredwr ar gyfer cysylltiadau o dan IR(ME)R. Sicrhawyd bod canllawiau atgyfeirio ar gael yn ystod y broses am hawl IR(ME)R.

Cadarnhaodd y dogfennau yr edrychwyd arnynt fod gweithdrefnau'r cyflogwr wedi'u dosbarthu i'r holl ddeiliaid dyletswydd a chadarnhaodd y staff eu bod wedi darllen y dogfennau.

Nododd y ffurflen hunanasesu fod y Rheolwr Radiograffeg wedi cyhoeddi atgyfeirwyr newydd gyda'r ddogfen "Gwybodaeth i Atgyfeirwyr" sy'n cynnwys meini prawf atgyfeirio a dangosyddion dosau. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl adolygu'r ddogfen hon yn ystod yr arolygiad.

Mae ffurflen gymrodeddu wedi'i datblygu ac mae'n cael ei datblygu a'i gweithredu ymhellach. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol a rhannodd y tîm arolygu rai awgrymiadau i wella'r ffurflen hon.

**Rhaid i'r cyflogwr**

- **Adolygu'r canllawiau atgyfeirio sydd ar gael a all fod yn y ddogfen 'gwybodaeth i atgyfeirwyr' a grybwyllwyd uchod, i sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn cyfateb i'r gweithdrefnau cyflogwr a'r canllawiau IR(ME)R cyfredol.**

- **Diweddaru'r weithdrefn ar atgyfeiriadau er mwyn ychwanegu manylion ychwanegol yn ymwneud â'r ffurflen gymrodeddu fel y ffurflen atgyfeirio i glinig asesu. Mae'r weithdrefn yn canolbwyntio ar atgyfeiriadau sgrinio'r from ar hyn o bryd.**

Roedd dogfennau'r llwybr atgyfeirio a adolygwyd yn cynnwys llwybrau IR(ME)R ar gyfer sgrinio safonol, carfanau risg uchel, clinig asesu ac unigolion dros 70 oed. Roedd yn gadarnhaol gweld bod gwelliannau wedi'u gwneud mewn dogfennaeth atgyfeirio ers yr arolygiad blaenorol ym mis Awst 2024. Un peth o bwys oedd y ffurflen gymrodeddu wedi'i diweddaru, roedd hyn yn gweithio fel atgyfeiriad. Roedd yn gadarnhaol gweld bod tystiolaeth wedi'i chofnodi i nodi'r atgyfeiriwr, (gyda llofnod electronig) ymarferydd a gweithredwr. Nodwyd adrannau ychwanegol ar gyfer cysylltiadau ychwanegol sy'n dangos tystiolaeth o'r gweithredwr a'r ymarferydd ar gefn y ffurflen gymrodeddu. Gwnaeth y ffurflen SASP2 y gwnaethom edrych arni hefyd nodi'n glir y deiliaid dyletswydd IR(ME)R a gyflawnodd pob tasg. Cynrychiolodd y newidiadau hyn welliannau cadarnhaol.

**Gan fod gan yr adran bellach swm cynyddol o ddogfennaeth atgyfeirio gorffenedig at ddibenion archwilio, dylai'r cyflogwr ystyried ehangu archwiliadau cydymffurfiaeth IR(ME)R i edrych ar y broses atgyfeirio.**

**Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gan archwiliadau cydymffurfiaeth IR(ME)R darged o 100%.**

*Lefelau cyfeirio diagnostig*
Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau eu bod yn defnyddio lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gyfer mamograffeg sgrinio a thomosynthesis. Roedd siartiau lefelau cyfeirio diagnostig i'w gweld ar yr hysbysfyrddau yn yr ystafelloedd mamograffeg.

Gwnaethom edrych ar weithdrefn y cyflogwr ar gyfer lefelau cyfeirio diagnostig. Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau eu bod yn ymwybodol o'r Lefelau Cyfeirio Diagnostig oedd ar waith a'r broses i'w dilyn pe byddai Lefelau Cyfeirio Diagnostig yn mynd y tu hwnt i'r lefelau hyn yn gyson. Dywedodd yr arbenigwr ffiseg feddygol wrthym fod lefelau cyfeirio diagnostig lleol islaw'r lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol ac roedd darllenwyr ffilmiau (gweithredwyr IR(ME)R sy'n perfformio gwerthusiadau clinigol) yn fodlon ar ansawdd cyfredol y delweddau. Roedd siartiau lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gael ym mhob ystafell a oedd yn cynnwys y lefelau cyfeirio diagnostig tomosynthesis newydd eu sefydlu. Cadarnhaodd yr arbenigwyr ffiseg feddygol eu bod newydd gwblhau'r archwiliadau dosau blynyddol a gwblhawyd, ac nid oedd angen unrhyw newidiadau i'r lefelau cyfeirio diagnostig lleol.

*Ymchwil feddygol*
Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw dreialon ymchwil feddygol yn ymwneud â chysylltiadau mamograffeg a oedd yn cynnwys yr adran ar hyn o bryd.

*Hawliau*
Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dirprwyo'r dasg hawliau i Brif Swyddog Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Amddiffyn Iechyd a Sgrinio Iechyd/Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. Yna, dirprwywyd y cyfrifoldeb hwn i Gyfarwyddwr yr Is-adran Sgrinio a roddodd hawl i Bennaeth Rhaglen Bron Brawf Cymru weithredu fel yr atgyfeiriwr ar gyfer profion sgrinio mamograffeg cychwynnol. Rhoddodd Pennaeth y Rhaglen hawliau i'r arbenigwyr ffiseg feddygol. Roedd matrics cynhwysfawr a rannwyd â Bron Brawf Cymru. Defnyddiwyd y matrics hwn fel sicrwydd yn ystod y broses hawliau, yn enwedig ar gyfer yr arbenigwyr ffiseg feddygol.

Nododd gweithdrefn 2 y cyflogwr y grwpiau o staff oedd â'r hawl i ymddwyn fel atgyfeiriwr, ymarferydd neu weithredwr ar gyfer cysylltiadau. Roedd yn disgrifio'n glir pwy oedd â'r hawl ar ran y Cyfarwyddwr. Dywedwyd wrthym fod gan yr holl ddeiliaid dyletswydd dystysgrif o hawliau.

Cafodd enghreifftiau o gofnodion hawliau a'r ddogfennaeth cwmpas ymarfer eu hadolygu yn ystod yr arolygiad. Roedd hyn yn cynnwys gwyddonwyr clinigol a hawliau'r arbenigwyr ffiseg feddygol. Gwnaethom edrych ar gyn cofnodion cleifion a chadarnhawyd bod llawfeddyg ymgynghorol y fron yn perfformio gwerthusiadau clinigol ar un cofnod. Nid oedd modd cadarnhau a oedd gan y llawfeddyg hawl fel gweithredwr.

**Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddaru cofnodion hawliau a Gweithdrefn ategol y Cyflogwr i gadarnhau bod gan y gweithredwyr sy'n perfformio gwerthusiadau clinigol (e.e. clinig asesu) hawliau priodol i berfformio'r dasg hon. Rhaid i hyn gael ei adlewyrchu yng Ngweithdrefn berthnasol y Cyflogwr a rhaid i'r unigolyn fod yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau a'r cwmpas ymarfer mewn perthynas â hyn.**

Cafodd ffurflenni cymhwysedd a matrics cymhwysedd eu rhannu â'r tîm arolygu i ddangos tystiolaeth o hyfforddiant a chymhwysedd ar gyfer deiliaid dyletswydd IR(ME)R. Er i ni gydnabod bod y dogfennau hyn yn cynrychioli gwelliannau sylweddol yn ddiweddar, gwnaed rhai awgrymiadau ychwanegol i wneud y broses cymhwysedd yn fwy cadarn.

**Dylai'r cyflogwr adolygu a diweddaru:**

- **Y ffurflenni cymhwysedd i sicrhau bod digon o dystiolaeth o hyfforddiant i fod yn sail i gymhwysedd**

- **Y matrics cymhwysedd er mwyn adlewyrchu dyddiadau adolygu cymhwysedd a hawliau.**

*Adnabod cleifion*

Gwnaethom edrych ar weithdrefn y cyflogwr yn ymwneud ag adnabod cleifion (EP 3). Roedd hon yn ddigon cadarn ac yn glir. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y weithdrefn hon yn cynnwys sut i ymdrin ag anghysonderau.

Gwnaeth yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau eu hymwybyddiaeth o'r prosesau a restrwyd yn EP3 a gwnaethant gadarnhau camau priodol i adnabod cleifion sy'n methu adnabod eu hunain o bosibl. Roedd yr holl gofnodion cleifion a oedd yn cael eu hadolygu'n gyson yn dogfennu pwy oedd wedi adnabod y claf ac roeddent yn cynnwys tri dynodydd unigryw.

*Unigolion o oedran beichiogi (holi am feichiogrwydd)*
Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn y ffurflen hunanasesu a gyflwynwyd gan y lleoliad yn dangos bod gweithdrefn y cyflogwr ar waith ar gyfer holi unigolion o oedran beichiogi. Gwnaethom edrych ar y weithdrefn a thrafod hyn â'r staff perthnasol. Roedd yr EP yn cynnwys y rhan fwyaf o'r broses sy'n gysylltiedig â sut a phryd i wneud ymholiadau ynghylch beichiogrwydd. Trafodwyd rhai gwelliannau i'r EP gyda'r rheolwyr yn ystod yr arolygiad. Nodwyd rhai anghysonderau yn y dogfennau a adolygwyd fel rhan o'r ffurflen hunanasesu. Roedd hyn yn cynnwys cyfranogwyr yn yr oedran uchaf o 49 yn hytrach na'r 55 oedd yn cael ei argymell a oedd wedi'u cynnwys yn y cwestiynau beichiogrwydd ar gyfer goruchwyliaeth Hodgkin's. Yn ogystal, nid oedd yr EP yn nodi ble roedd yr ateb i gwestiwn beichiogrwydd yn cael ei gofnodi.

**Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddaru'r EP sy'n gysylltiedig ag ymholiadau beichiogrwydd i sicrhau bod yr oedrannau wedi'u rhestru'n gywir a sicrhau bod yr EP yn rhoi manylion cynhwysfawr ar ble i ddogfennu ymatebion cleientiaid.**

*Manteision a Risgiau*
Fel rhan o'r broses o werthuso'r ffurflen hunanasesu, cadarnhawyd bod pob client a wahoddwyd am brawf sgrinio'r fron yn cael copi o daflen 'Sgrinio'r fron yn y GIG, Eich helpu chi i benderfynu.'

Roedd pob cleient a wahoddwyd am brawf sgrinio fel rhan o raglen hanes y teulu yn cael copi o daflen 'Esbonio Sgrinio'r Fron' Bron Brawf Cymru.  Roedd y taflenni hyn yn nodi manteision a risgiau sgrinio'r fron, gan gynnwys risgiau ymbelydredd.

Gwnaethom adolygu'r EP cysylltiedig, a oedd yn rhoi manylion ar sut roedd gwybodaeth am fuddiannau a risgiau a oedd yn gysylltiedig ag ymbelydredd mewn mamogramau yn cael eu rhannu â chleientiaid. Gwelsom fod cleientiaid yn cael cerdyn wedi'i lamineiddio i'w ddarllen wrth gyrraedd eu hapwyntiadau sgrinio, a oedd yn rhoi manylion llawn y manteision a risgiau a oedd yn gysylltiedig â mamograffeg.

*Gwerthusiadau clinigol*
Gwnaethom edrych ar y ffurflen hunanasesu ac EP 10 mewn perthynas â gwerthusiadau clinigol. Roedd y weithdrefn hon yn un gynhwysfawr.

Roedd y manylion yn cadarnhau sut mae pob darllenydd ar gyfer sgrinio mamogramau yn defnyddio dull darllen yn ddall ddwywaith. Mae'r darllenydd yn categoreiddio'r canfyddiadau a chaiff y gwerthusiad ei gofnodi ar system gyfrifiadurol sgrinio'r fron. Mae Bron Brawf Cymru Abertawe yn defnyddio

cymrodeddu, sy'n edrych ar ganlyniadau'r ddau ddarllenydd ac yn penderfynu a oes angen galw claf yn ôl.

Cynhaliwyd gwaith Sicrhau Ansawdd mewn perthynas â gwerthusiadau clinigol mewn sawl ffordd, gan gynnwys mewn adolygiadau arfarnu a datblygu perfformiad (PADR), mewn adolygiadau tîm amlddisgyblaethol a'r broses asesu negyddol ffug. Byddai'r gwerthusiad yn cael ei gofnodi ar system gyfrifiadurol sgrinio'r fron.

Byddai delweddau'r asesiad yn cael eu gwerthuso yn ystod y clinig asesu a'u cofnodi yn nodiadau'r clinig.

*Agweddau ymarferol ar werthusiadau clinigol*
Roedd dau lwybr ar wahân yng Nghymru; gwasanaeth sgrinio'r fron a'r gwasanaeth symptomatig, sy'n defnyddio dwy system TG ar wahân. Roedd risg yn parhau y gallai atgyfeiriadau gael eu dyblygu, lle byddai cleient yn cael gwahoddiad am brawf sgrinio er ei fod ar y llwybr symptomatig, gan na fyddai hynny wedi'i gofnodi ar systemau gweinyddol gwasanaeth sgrinio'r fron. Nododd y gwasanaeth er nad oedd gan y gweithredwyr fynediad i ddelweddau blaenorol a dynnwyd gan wasanaethau symptomatig mewn Byrddau Iechyd, gwnaed gwelliannau sylweddol i'r broses o wirio gyda chleientiaid er mwyn lliniaru'r risg hon wrth i ddatrysiad TG mwy parhaol gael ei roi ar waith. Cadarnhaodd y staff os oedd gan y cleient unrhyw amheuaeth am ddelweddau blaenorol, na fydd yr archwiliad yn mynd yn ei flaen nes iddynt gael cadarnhad pryd cafodd y mamogram diwethaf ei gyflawni. Gall hyn olygu bod y radiograffydd yn cysylltu â'r ysbyty lleol neu'r uned sylfaen i gadarnhau'r dyddiad. Roedd hi bellach yn arfer mwy sefydlog i roi stop ar weithrediadau a cheisio rhagor o wybodaeth.

**Rhaid i'r cyflogwr weithio tuag at ddatrysiad mwy cynhwysfawr mewn perthynas â rhoi tystiolaeth o ddelweddau blaenorol wrth barhau i liniaru'r risgiau o ddelweddau dwbl.**

*Cysylltiadau delweddu anfeddygol*
Cadarnhaodd y gwasanaeth na wnaeth gynnal cysylltiadau at ddibenion delweddu anfeddygol.

**Dyletswyddau'r cyflogwr: archwiliadau clinigol**
Rhannwyd y weithdrefn cyflogwr newydd ei chadarnhau ar gyfer rhaglen archwiliadau clinigol ynghyd ag enghreifftiau yn y ffurflen hunanasesu wedi'i chwblhau. Roedd yn gadarnhaol gweld bod cyswllt o fewn y weithdrefn cyflogwr hon a'r “Weithdrefn ansawdd ac archwilio clinigol” a oedd yn gynhwysfawr ac yn glir.

Dywedwyd wrthym fod yr arweinwyr Sicrhau Ansawdd wedi arwain y cyfarfod cyffredinol blynyddol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2025 a oedd yn cynnwys sesiynau grŵp ar wahân ar gyfer radiograffwyr a radiolegwyr. Roedd llawer o drafod yn y digwyddiad yn ymwneud ag archwiliadau clinigol a'r cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf. Ni wnaethom adolygu'r manylion penodol yn hyn o beth ac nid oedd amserlen archwilio glinigol ar gael i'w hadolygu.

**Rhaid i'r cyflogwr ddogfennu amserlen archwilio clinigol i sicrhau bod y themâu yn cael eu harchwilio yn briodol gyda chanlyniadau dysgu ar waith.**

Roedd rhai o'r archwiliadau clinigol a welsom yn ystod yr arolygiad yn anghyson o ran y ffordd roedd canfyddiadau archwiliadau wedi'u cyflwyno, ac nid oeddent yn cynnwys tystiolaeth o ddadansoddiad manwl o'r canlyniadau.

Byddai datblygu proses gyson ar gyfer archwilio a chynnal dadansoddiad manwl yn helpu'r staff i gau'r ddolen adborth er mwyn ysgogi gwelliannau i'r gwasanaeth.

**Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod dull safonol ar waith i adrodd ar archwiliadau, y gwersi i'w dysgu, y camau i'w cymryd mewn perthynas â chanlyniadau archwiliadau ac a oes angen cynnal ail archwiliad.**

Cyflawnodd yr adran rai archwiliadau cydymffurfiaeth IR(ME)R ac edrychwyd ar sampl o'r rhain.

**Dylai'r cyflogwr anelu at gadw amserlenni ailarchwilio yn fyr nes bod cydymffurfiaeth o 100% yn cael ei chyflawni ar gyfer archwiliadau cydymffurfiaeth IR(ME)R.**

**Dyletswyddau'r cyflogwr: cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol**

Gwnaethom edrych ar dystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod digwyddiadau a chamgymeriadau a fu bron â digwydd yn cael eu codi yng nghyfarfod blynyddol y bwrdd diogelu rhag ymbelydredd gan arbenigwyr ffiseg feddygol fel aelodau o'r grŵp Sicrhau Ansawdd Technegol. Roedd digwyddiadau Datix hefyd yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd bwrdd y rhaglen. Yn ystod cyfarfod blynyddol y bwrdd diogelu rhag ymbelydredd, byddai'r arbenigwyr ffiseg feddygol yn cyflwyno crynodeb o'r digwyddiadau a fu, ac roedd y rhain wedi'u rhestru yn ôl thema.

Gwnaethom edrych ar adroddiad cryno o gysylltiadau damweiniol ac anfwriadol dros gyfnod o bedair blynedd (2020-2024) a gyhoeddwyd gan ffisegwyr meddygol. Dangosodd dadansoddiad ôl-weithredol fod un duedd a oedd yn effeithio ar sawl claf wedi'i arsylwi, a rhoddwyd gwybod am hyn mewn modd priodol i AGIC yn unol â chanllawiau cysylltiad damweiniol neu anfwriadol arwyddocaol. Cadarnhaodd uwch-

aelodau o'r staff fod digwyddiadau a chamgymeriadau a fu bron â digwydd hefyd wedi'u trafod mewn cyfarfodydd a oedd yn cael eu cofnodi.

Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw ddigwyddiadau ymbelydredd yn cael eu cofnodi ar system Datix ac y byddai'r tîm ffiseg feddygol yn cael gwybod amdanynt, a fyddai'n cynnig cyngor ac yn cadarnhau a oedd angen rhoi gwybod i AGIC am y digwyddiad. Byddai'r holl wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r unigolyn dan sylw i ddechrau drwy sgwrs anffurfiol, cyn cael eu cofnodi ar system Datix. Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o staff yn yr adran fod pob digwyddiad, digwyddiad a fu bron â digwydd, canmoliaeth a chwyn yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff. Ni wnaethom edrych ar ddogfennaeth a oedd yn cadarnhau bod y cyflogwr o dan IR(ME)R yn cael gwybod am ddigwyddiadau nad oedd angen rhoi gwybod amdanynt, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu dueddiadau.

**Dyletswyddau'r ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr**
Gwnaethom edrych ar weithdrefn y cyflogwr a'r Weithdrefn Diogelu rhag Ymbelydredd a oedd yn cynnwys hawliau atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr i gyflawni eu dyletswyddau. Dylai'r weithdrefn cyflogwr hon gynnwys y canlynol:

- y broses ar gyfer rhoi gwybod i ddeiliaid dyletswydd am eu rolau a'u cyfrifoldebau o dan IR(ME)R
- Sut roedd hyfforddiant a chymwyseddau yn cael eu hasesu a'u cymeradwyo, ond roedd angen gwneud rhywfaint o waith ychwanegol yn hyn o beth
- Sut roedd staff yn dangos eu hawliau a'u meysydd ymarfer
- Cyfnod adolygu ar gyfer hawliau ar draws pob deiliad dyletswydd

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw, ar bob lefel, yn ymwybodol gan mwyaf o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd o dan IR(ME)R a gwelwyd bod dealltwriaeth dda o IR(ME)R ar bob lefel yn gyffredinol.

**Cyfiawnhad ac Awdurdodiad dros gysylltiadau unigol**
Gwnaethom edrych ar y ddogfen 'Canllawiau Awdurdodi' er mwyn helpu'r staff i ddeall y broses awdurdodi.

Dangosodd ein trafodaethau â'r staff fod rhywfaint o ddryswch ynghylch y defnydd o'r canllawiau awdurdodi a oedd ar waith, a'u diben. Mae angen i'r gwaith o gofnodi awdurdodiad fod ar wahân i'r dystiolaeth o gyflawni'r cysylltiad.
Gall staff elwa ar gwblhau rhagor o hyfforddiant yn y maes hwn er mwyn gwella lefelau dealltwriaeth.

**Rhannwyd rhai awgrymiadau yn ymwneud â gwelliannau i'r ddogfen 'Canllawiau Awdurdodi' yn ystod yr arolygiad. Roedd y rhain yn cynnwys**

- **Ychwanegu cyflwyniad i'r canllaw**

- **Cadarnhau bod angen i'r gwaith o gofnodi awdurdodiad fod ar wahân i'r dystiolaeth o gyflawni'r cysylltiad.**
- **Eithriadau**
- **Meini prawf a chamau gweithredu angenrheidiol os na chaiff y meini prawf eu bodloni.**

**Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddaru'r canllawiau awdurdodi. Gan sicrhau hefyd bod gan y staff ddealltwriaeth glir o'r broses ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi. Rhaid i dystiolaeth o awdurdodiad gael ei chofnodi a'i harchwilio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag IR(ME)R.**

**Optimeiddio**

Clywsom fod ymarferwyr a gweithredwyr yn sicrhau bod dosau mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol. Roedd y ffurflen hunanasesu yn cadarnhau bod y technegau mamogram yn dilyn y safonau cenedlaethol.

Roedd y gwasanaeth ffiseg feddygol yn cynnal arolygon blynyddol o ddosau cleifion er mwyn cadarnhau bod y dosau a roddwyd i gleifion ar bob darn o gyfarpar yn unol â lefelau cyfeirio diagnostig lleol a chenedlaethol.

Gwnaethom edrych ar dystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod rhaglen Sicrhau Ansawdd a phroses cynnal a chadw arfaethedig ar waith i sicrhau bod cyfarpar yn cyrraedd safonau cenedlaethol.

Comisiynwyd cyfarpar gyda chymorth gan y gwneuthurwr er mwyn optimeiddio cysylltiadau o'r dechrau. Roedd protocolau cysylltiadau wedi'u harddangos ym mhob ystafell i gynghori gweithredwyr.

*Gofalwyr neu gysurwyr*

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith mewn perthynas â rhoi cyngor ac arweiniad ar gysylltiadau i ofalwyr a chysurwyr. Er bod y weithdrefn cyflogwr hon wedi'i hysgrifennu'n dda, awgrymwyd rhai gwelliannau yn ystod yr arolygiad hwn. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol

- Ychwanegu cyflwyniad i'r weithdrefn
- Eithriadau
- Meini prawf a beth i'w wneud os na chaiff y meini prawf eu bodloni
- Ychwanegu manylion ynghylch llofnodi'r ffurflen gofalwyr a chysurwyr.

Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddaru gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer gofalwyr a chysurwyr gyda'r bwriad o'i gwneud yn fwy cadarn.

**Cyngor arbenigol**

Gwnaethom gadarnhau bod y cyflogwr wedi penodi arbenigwyr ffiseg feddygol ac wedi rhoi'r hawl iddynt roi cyngor ar faterion diogelu rhag ymbelydredd a chydymffurfiaeth ag IR(ME)R 2017.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y gallent gael cyngor arbenigol pan fo angen. Roedd yn gadarnhaol nodi cyfranogiad yr arbenigwyr ffiseg feddygol, a oedd yn amlwg yn ymgysylltu â'r adran er nad oeddent ar y safle bob dydd. Gwelwyd tystiolaeth o hyn drwy ei ymwneud ag amrywiaeth o grwpiau a phwyllgorau, yn ogystal â'i gyngor i'r staff yn ôl y gofyn. Roedd yr arbenigwyr ffiseg feddygol yn rhan annatod o reoli ansawdd, caffael a chomisiynu cyfarpar yn Bron Brawf Cymru. Roeddent hefyd wedi bod yn gyfrifol am lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gyfer tomosynthesis.
**Un peth o bwys oedd y fideos hyfforddiant yn seiliedig ar atodlen 3 yn IR(ME)R a ddatblygwyd gan yr arbenigwr ffiseg feddygol. Roedd y rhain ar gael i'r holl staff ar Sharepoint.**

**Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr**

Gwnaethom edrych ar restr o gyfarpar a rannwyd ynghyd â'r ffurflen hunanasesu. Nid oedd y rhestr o gyfarpar yn cynnwys y dyddiad gweithgynhyrchu a'r dyddiad gosod, ac nid oedd yn adlewyrchu gofynion y rhestr o feddalwedd fel gofyniad yn dilyn diwygiadau IR(ME)R 2017.

**Rhaid i'r cyflogwr ddiweddaru'r rhestr o'r cyfarpar i gynnwys yr holl ofynion o fewn rheoliadau IR(ME)R.**

Disgrifiwyd y broses ar gyfer comisiynu a phrofi cyfarpar newydd, ac edrychwyd ar ffurflenni a phrosesau priodol. Cadarnhawyd bod pob darn o gyfarpar yn cael ei gomisiynu gan y tîm ffiseg feddygol. Fel rhan o'r broses gomisiynu, roedd y tîm ffiseg feddygol a'r radiograffwyr yn cynnal profion olynol dros dri diwrnod. Roedd y darlleniadau o'r profion hyn yn cael eu defnyddio i bennu llinellau sylfaen ar gyfer profion ansawdd yn y dyfodol. Cafodd y llinellau sylfaen eu hadolygu ar ôl gosod tiwb neu synhwyrydd newydd, ailgalibradu neu ddiweddaru meddalwedd.

Wrth gomisiynu cyfarpar newydd, gwnaeth yr arbenigwyr ffiseg feddygol sicrhau bod y systemau yn cael eu hoptimeiddio ar y cyd â pheirianwyr ac arbenigwyr rhaglenni.

Roedd y llawlyfr Rheoli Ansawdd  yr edrychodd yr arolygwyr arno yn gynhwysfawr ac roedd digon o fanylion yn y cofnodion Rheoli Ansawdd. Roedd gan yr arbenigwyr

ffiseg feddygol oruchwyliaeth dda o brofion Rheoli Ansawdd ac roeddent yn uwchgyfeirio lle bo angen.

## Diogel

**Rheoli risg**
Wrth fynd o amgylch yr adran, gwnaethom nodi bod cyfarpar newydd a bod yr amgylchedd yn fodern, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Roedd yn cynnig amgylchedd golau, glân, clir a chroesawgar i'r cleifion. Ni wnaethom nodi unrhyw beryglon amlwg i iechyd a diogelwch y cleifion ac unigolion eraill sy'n ymweld â'r adran.

Roedd arwyddion clir yn hysbysu'r cleifion ac ymwelwyr na ddylid mynd i mewn i'r ardaloedd a reolir pan oedd ymbelydredd ïoneiddio yn cael ei ddefnyddio.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Gwelsom fod trefniadau atal a rheoli heintiau a threfniadau dihalogi addas ar waith. Roedd pob ardal yr oedd modd i gleifion fynd iddi yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Roedd y cyfarpar hefyd yn ymddangos yn lân a disgrifiodd yr holl staff weithdrefnau glanhau a dihalogi addas.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn y cyfleuster a chadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod cyfarpar diogelu personol addas ar gael iddynt yn hawdd. Gwelsom hefyd fod weips glanhau ar gael i ddihalogi cyfarpar a rennir a dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o'u rôl yn hyn o beth.

Dywedodd pob un o'r cleientiaid a gwblhaodd yr holiadur fod yr adran yn lân a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn, yn eu barn nhw.

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd yr holiadur o'r farn bod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith, bod cyfarpar diogelu personol priodol yn cael ei gyflenwi a'i ddefnyddio, a bod yr amgylchedd yn eu galluogi i reoli heintiau yn effeithiol. Roedd pob aelod o'r staff yn cytuno bod amserlen lanhau effeithiol ar waith.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum aelod o'r staff, a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau gorfodol.

**Diogelu plant a diogelu oedolion**
Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru a ble i gael gafael arnynt. Roeddent hefyd yn gallu disgrifio'r camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt bryder diogelu.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum aelod o'r staff, a oedd yn cadarnhau eu bod wedi cwblhau'r lefel briodol o hyfforddiant ar ddiogelu.

## Effeithiol

**Cofnodion cleifion**
Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer rheoli cofnodion yn yr adran. Roeddem yn gallu adolygu dogfennaeth atgyfeirio gyfredol a blaenorol deg cleient. Gwnaethom gadarnhau gwelliannau yn y ffurflenni SASP2 a ddefnyddiwyd ac roedd y rhain yn cynnwys gwiriadau i gadarnhau beichiogrwydd, bwydo ar y fron, hanes blaenorol a dyfeisiau cardiaidd.

Gwnaethom edrych ar dystiolaeth o archwiliadau priodol sy'n cael ei chynnal ar gofnodion cleifion gyda'r bwriad o wneud gwelliannau.

## Effeithlon

**Effeithlon**
Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef fod y systemau a'r prosesau a oedd ar waith yn Bron Brawf Cymru, Abertawe yn gyson â'r rheini a oedd ar waith ar dri safle Bron Brawf Cymru ac y byddai gwelliannau a wnaed i brosesau a gweithdrefnau ar un safle yn cael eu hadlewyrchu ar y safleoedd eraill. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y gwelliannau oedd yn ofynnol yn Bron Brawf Cymru, Llandudno, a oedd yn gysylltiedig ag arolygiad IR(ME)R ym mis Awst 2024, wedi'u rhoi ar waith i raddau helaeth yn Bron Brawf Cymru, Abertawe.

**Rhaid i'r cyflogwr barhau i sicrhau y caiff gwelliannau eu rhoi ar waith yn gyson ym mhob rhan o Bron Brawf Cymru.**

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan staff

Rhannodd AGIC holiadur ar-lein er mwyn cael barn y staff ar y gwasanaethau a ddarperir gan Bron Brawf Cymru a'u profiad o weithio yno. Cafwyd cyfanswm o 20 o ymatebion gan aelodau o'r staff. Ni chwblhaodd pob ymatebydd yr holiadur cyfan, a chafodd rhai cwestiynau eu gadael yn wag ym mhob rhan.

Roedd yr ymatebion gan y staff yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd pob un o'r ymatebwyr ond un yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth maent yn eu rhoi i gleifion a chytunodd pawb y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan eu hysbyty ar eu cyfer eu hunain neu ar gyfer ffrindiau a theulu. Roedd pob ymatebydd ond un yn argymell eu sefydliad fel lle i weithio.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

> ***"Rwy'n falch iawn o weithio yn y tîm hwn. Rydym yn gweithio'n galed iawn ac yn rhoi ein cleifion yn gyntaf. Mae'n fraint gofalu am y menywod a darparu safon uchel iawn o ofal iddynt."***

> ***"Rwy'n ffodus i weithio mewn amgylchedd o ymddiriedaeth a pharch yn unol â gwerthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru, a hynny mewn perthynas â'm cydweithwyr ond yn bwysicach na hynny, â'r menywod sy'n defnyddio ein gwasanaeth."***

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac arweinyddiaeth**

Cadarnhawyd mai Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru oedd y cyflogwr dynodedig o dan IR(ME)R, a oedd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Lle y bo'n briodol, roedd y cyflogwr wedi dirprwyo tasgau i weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio yn Ymddiriedolaeth y GIG roi IR(ME)R ar waith.

Darparwyd manylion i ni am strwythur sefydliadol Bron Brawf Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y ddogfennaeth a gyflwynwyd cyn yr arolygiad hwn. Cafodd llinellau adrodd a chyfrifoldebau clir o dan IR(ME)R eu cadarnhau yn y ffurflen hunanasesu a gwblhawyd ac mewn sgyrsiau gyda staff ar bob lefel.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff fod prosesau anffurfiol a ffurfiol wedi'u diweddaru ar waith i ystyried, adolygu a chymeradwyo polisïau a gweithdrefnau drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, yn ogystal ag yn union ar ôl arolygiad IR(ME)R blaenorol Bron Brawf Cymru, drwy weithgor ar draws y sefydliad.

## Y Gweithlu

**Gweithlu medrus a galluog**
Nid oedd gan y deiliaid dyletswydd IR(ME)R y gwnaethom siarad â nhw ddigon o ddealltwriaeth a gwybodaeth mewn perthynas ag IR(ME)R na sut mae'r rheoliadau yn berthnasol i ymarfer clinigol. Roedd fframwaith IR(ME)R yn darparu cymorth i'r staff ac yn sicrhau diogelwch cleientiaid. Nid oedd y staff bob amser yn ymwybodol o'r fframwaith roeddent yn gweithio oddi mewn iddo. Cadarnhaodd y staff fod hyfforddiant IR(ME)R mewn amryw o ffurfiau wedi'i gyflwyno i'r holl staff a bod prosesau ar waith i gadarnhau cymhwysedd a dealltwriaeth.

Cadarnhaodd y rheolwyr y broses ar gyfer rheoli'r matrics hyfforddiant. Dywedwyd wrthym hefyd pan fyddai gweithdrefnau'r cyflogwr yn cael eu diweddaru, fod dealltwriaeth y staff yn cael ei chadarnhau yn dilyn yr hyfforddiant priodol. Roedd yr adborth gan y staff ar y broses hon yn gadarnhaol iawn.

Roedd y gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol dros 84% ar gyfer yr adran. Roedd system briodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw a phawb a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff fod cydymffurfiaeth ag arfarniadau yn fwy na 70% a bod dyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer y rheini nad oeddent wedi cwblhau eu harfarniad.

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gyfarwydd â'r Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn ei deall. Cafodd hyn hefyd ei gadarnhau yn yr holiadur, lle roedd pob aelod o'r staff yn cytuno eu bod yn gyfarwydd â'r Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn ei deall, ac yn deall ei rôl o ran cyrraedd safonau'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw a phawb a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn teimlo bod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn, a'u bod yn gallu bodloni'r gofynion croes ar eu hamser yn y gwaith.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**
Roedd adborth y staff y gwnaethom siarad â nhw am ddiwylliant Bron Brawf Cymru, Abertawe yn gadarnhaol. Cadarnhaodd aelodau unigol o'r staff fod Bron Brawf Cymru yn lle cadarnhaol i weithio a bod eu cymheiriaid a'u rheolwyr llinell

uniongyrchol yn gefnogol. Nododd y staff eu bod yn falch i weithio i Bron Brawf Cymru.

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod yr uwch-aelodau o'r staff yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt. Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff fod amrywiaeth eang o brosesau a chyfarfodydd ar waith i rannu gwybodaeth a diweddariadau â'r staff. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd tîm, bwletinau e-bost ac apiau ar-lein.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| **Pryderon uniongyrchol a nodwyd** | **Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion** | **Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder** | **Sut cafodd y pryder ei ddatrys** |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B– Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Bron Brawf Cymru, Abertawe, Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Dyddiad yr arolygiad:8 a 9 Ebrill 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â sicrwydd / diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn | | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Bron Brawf Cymru, Abertawe, Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Dyddiad yr arolygiad:8 a 9 Ebrill 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| | Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | | |
| 1. | **Canllawiau atgyfeirio** Nid oedd y ddogfen Gwybodaeth i Atgyfeirwyr ar gael i edrych arni yn ystod yr arolygiad. Dywedwyd wrthym fod y ddogfen hon yn cynnwys meini prawf atgyfeirio a dangosyddion dosau. | Adolygu'r canllawiau atgyfeirio sydd ar gael a all fod yn y ddogfen 'gwybodaeth i atgyfeirwyr' a grybwyllwyd uchod, i sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn cyfateb i'r gweithdrefnau cyflogwr a'r canllawiau IR(ME)R cyfredol | **Rheoliad 6 (5) (a) Rheoliad 10(5)** | Bydd y gwasanaeth yn edrych ar wybodaeth a ddarparwyd i atgyfeirwyr ar hawliau i sicrhau bod y wybodaeth yn cyfateb i'r canllawiau gweithdrefn y cyflogwr ac IR(ME)R cyfredol | DP | 4 mis |
| 2. | **Canllawiau atgyfeirio** | Diweddaru'r weithdrefn ar atgyfeiriadau er mwyn | **Rheoliad 6 (5) (a) Rheoliad 10(5)** | Bydd y gwasanaeth yn diweddaru'r weithdrefn ar | DP | 4 mis |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Roedd y weithdrefn atgyfeirio gyfredol yr edrychwyd arni yn canolbwyntio ar atgyfeiriadau sgrinio'r fron, mae angen manylion ychwanegol yn ymwneud â'r defnydd o'r ffurflen gymrodeddu fel ffurflen atgyfeirio ar gyfer clinig asesu | ychwanegu manylion ychwanegol yn ymwneud â'r ffurflen gymrodeddu fel y ffurflen atgyfeirio i glinig asesu. | | atgyfeiriadau er mwyn ychwanegu manylion at y ffurflen gymrodeddu (y cyfeirir ati fel y ffurflen galw yn ôl) gan mai hon yw'r ffurflen atgyfeirio ar gyfer y clinig asesu | | |
| **3.** | **Canllawiau atgyfeirio** Mae gan yr adran swm cynyddol o ddogfennaeth atgyfeirio gorffenedig sydd ar gael at ddibenion archwilio | Mae'r cyflogwr yn adolygu archwiliadau cyfredol IR(ME)R ac yn ystyried ehangu archwiliadau cydymffurfiaeth IR(ME)R i edrych ar y broses atgyfeirio.<br><br>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gan archwiliadau cydymffurfiaeth IR(ME)R darged o 100%. | **Rheoliad 6 (5) (a) Rheoliad 10(5)** | Bydd archwiliadau cydymffurfiaeth IR(ME)R yn cynnwys y broses atgyfeirio yn yr archwiliadau a gynhelir yn y dyfodol<br><br>Bydd pob archwiliad cydymffurfiaeth yn cynnwys targedau o 100% yn y dyfodol. | Rheolwyr Rhanbarthol Radiograffeg | 6 mis |
| **4.** | **Hawliau** Wrth adolygu cofnodion cyn | Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddaru cofnodion hawliau a Gweithdrefn | **Rheoliad 6 (1), Atodlen 2 (1) (b)** | Bydd y rhaglen yn adolygu'r cofnodion hawliau a gweithdrefn | DP | 4 mis |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gleifion, nid oedd yn bosibl cadarnhau o'r ddogfennaeth hawliau, a oedd gan lawfeddyg y fron hawl fel gweithredwr IR(ME)R | ategol y Cyflogwr i gadarnhau bod gan y gweithredwyr sy'n perfformio gwerthusiadau clinigol (e.e. clinig asesu) hawliau priodol i berfformio'r dasg hon. Rhaid i hyn gael ei adlewyrchu yng Ngweithdrefn berthnasol y Cyflogwr a rhaid i'r unigolyn fod yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau a'r cwmpas ymarfer mewn perthynas â hyn. | | ategol y cyflogwr. Noder nad oes gan lawfeddyg y fron yr hawl fel gweithredwr IR(ME)R gan nad yw'r dyletswyddau hyn yn bodoli yn y clinig asesu gan mai'r Radiolegydd/Radiograffydd sy'n cyflawni hyn yn y clinig asesu. | | |
| **5.** | **Hawliau**<br>Roedd angen rhywfaint o wybodaeth ychwanegol ar y ffurflen cymhwysedd staff a matrics cymhwysedd IR(ME)R i wneud y broses yn fwy cadarn | Dylai'r cyflogwr adolygu a diweddaru:<br><br>• Y ffurflenni cymhwysedd i sicrhau bod digon o dystiolaeth o hyfforddiant i fod yn sail i gymhwysedd<br><br>• Y matrics cymhwysedd er mwyn | **Rheoliad 6 (3) (b)**<br>**Rheoliad 17 (4),**<br>**Atodlen 3** | Bydd y rhaglen yn adolygu ac yn diweddaru'r ffurflen gymhwysedd a'r matrics cymhwysedd gyda'r wybodaeth ychwanegol fel y manylwyd. | Rheolwyr Radiograffeg Rhanbarthol | 6 mis |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | adlewyrchu dyddiadau adolygu cymhwysedd a hawliau. | | | | |
| 6. | **Holi am feichiogrwydd** Nodwyd rhai anghysonderau mewn dogfennaeth, mewn oedrannau ac o fewn Gweithdrefn y Cyflogwr | Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddaru Gweithdrefn y Cyflogwr sy'n gysylltiedig ag ymholiadau beichiogrwydd i sicrhau bod yr oedrannau wedi'u rhestru'n gywir a sicrhau bod Gweithdrefn y Cyflogwr yn rhoi manylion cynhwysfawr ar ble i ddogfennu ymatebion cleientiaid. | **Rheoliad 6 (8), 11(5) Atodlen 2 (c)** | Bydd y rhaglen yn adolygu ac yn diweddaru Gweithdrefn y Cyflogwr sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd i sicrhau bod yr oedrannau wedi'u rhestru'n gywir a sicrhau bod Gweithdrefn y Cyflogwr yn nodi manylion cynhwysfawr ar ble i ddogfennu ymatebion y cleientiaid. | DP | 4 mis |
| 7. | **Agweddau ymarferol ar werthusiadau clinigol** Mae gwasanaeth sgrinio'r fron a'r gwasanaeth symptomatig yn defnyddio systemau ar wahân i recordio delweddau. Mae risg y gallai atgyfeiriadau gael eu dyblygu, lle | Rhaid i'r cyflogwr weithio tuag at ddatrysiad mwy cynhwysfawr mewn perthynas â rhoi tystiolaeth o ddelweddau blaenorol wrth barhau i liniaru'r risgiau o ddelweddau dwbl. | **Rheoliad 10 (5) Rheoliad 11(4)** | Er mwyn lliniaru'r risg y bydd cyfranogwr sgrinio yn cael mamogram o fewn chwe mis i gael mamogram symptomatig blaenorol, cafodd y broses o ran gwiriadau ei hadolygu a'i chryfhau.<br><br>Cyflawnwyd hyn gyda gweithdrefnau'r cyflogwyr a hefyd y cyfarwyddiadau gwaith. Mae'n amlwg i'r staff na ddylid bwrw | SH | Bydd dulliau lliniaru ar waith nes bod y PACS newydd yn cael eu rhoi ar waith ledled Cymru - |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | byddai cleient yn cael gwahoddiad am brawf sgrinio er ei fod ar y llwybr symptomatig, gan na fyddai hynny wedi'i gofnodi ar systemau gweinyddol gwasanaeth sgrinio'r fron. | | | ymlaen i gael mamogram os nad yw'r cyfranogwr yn siŵr a yw wedi cael mamogram symptomatig blaenorol yn ystod y chwe mis blaenorol. Byddant yn gofyn i'r cyfranogwr a all wirio hyn, neu os yw'n ymarferol, bydd y staff ar y faniau symudol yn ceisio gwirio drwy ffonio'n ôl i'r safle neu drwy ffonio gwasanaeth y Bwrdd Iechyd ond bydd hynny'n dibynnu ar yr amser sydd ar gael gan y clinig.<br><br>Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys cysylltu â rhaglenni sgrinio'r fron eraill yn y DU i archwilio eu prosesau i liniaru'r risg hon. Gwnaeth proses canfod ffeithiau ddangos bod amrywiaeth ar hyd gwasanaethau sgrinio'r fron y DU gyda mynediad i systemau TG byw ar y faniau symudol ac mewn prosesau. | | amserlenni 2 flynedd |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cynhaliwyd trafodaethau â chydweithwyr TG a rheolwr y System Archifo a Rhannu Lluniau (PACS) i drafod pa mor ymarferol yw mynediad byw. Nid yw hyn yn ymarferol ar hyn o bryd am y rhesymau canlynol:<br><br>Mae gosod cysylltiadau byw ar faniau symudol yn broses gymhleth a byddai angen mynd i'r afael â'r dull, cysylltedd, seiberddiogelwch, costau cymorth ac adnoddau ariannol. Byddai hwn yn gynllun gwaith sylweddol nad yw'r adnoddau ar gael i'w symud yn ei flaen ar hyn o bryd.<br><br>Nid yw'r system PACS sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd yn caniatáu mynediad i radiograffwyr weld yr hanes ledled Cymru. Felly os byddai mynediad byw ar gael nawr, ni fyddai'r wybodaeth yn welliant ar y | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | wybodaeth sydd ar NBSS ar hyn o bryd.<br><br>Mae prosiect Cymru Gyfan wedi'i sefydlu er mwyn newid y system PACS presennol a'r System Gwybodaeth Radioleg ledled Cymru. Un o fuddiannau hyn fydd gwella mynediad ar draws y Bwrdd Iechyd am PACS a'r System Gwybodaeth Radioleg. Aeth Iechyd Cyhoeddus Cymru yn fyw ar system newydd PACS ym mis Mawrth 2025 ond bydd angen rhoi System Gwybodaeth Radioleg ar waith yn llawn cyn bod modd cael mynediad llawn ledled Cymru. Bydd yn cymryd o leiaf ddwy flynedd i'w rhoi ar waith yn llawn.<br><br>Bydd cysylltedd byw ar faniau symudol yn cael ei gadw fel nod uchelgeisiol a bydd hyn yn esgor ar y fantais fwyaf ar ôl rhoi PACS Cymru Gyfan a | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | System Gwybodaeth Radioleg ar waith yn llawn. | | |
| **8.** | **Archwiliad clinigol** Nid oedd amserlen archwilio clinigol blynyddol ar gael i'w adolygu | Rhaid i'r cyflogwr ddogfennu amserlen archwilio clinigol i sicrhau bod y themâu yn cael eu harchwilio yn briodol gyda chanlyniadau dysgu ar waith. | **Rheoliad 7 (4), 11(5** | Bydd y Rhaglen yn coladu'r archwiliadau arfaethedig yn amserlen archwilio ac yn rhannu gwersi o'r canlyniadau. | DP a Rheolwyr Radiograffeg Rhanbarthol | 4 mis |
| **9.** | **Archwiliad clinigol** Ni roddwyd gwybod am rai canfyddiadau adrodd ar archwiliadau clinigol ac roedd diffyg tystiolaeth o ddadansoddiad manwl ac amserlenni ailarchwilio yn rhai ohonynt. | Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod dull safonol ar waith i adrodd ar archwiliadau, y gwersi i'w dysgu, y camau i'w cymryd mewn perthynas â chanlyniadau archwiliadau ac a oes angen cynnal ail archwiliad.<br><br>Dylai'r cyflogwr anelu at gadw amserlenni ailarchwilio yn fyr nes bod cydymffurfiaeth o 100% yn cael ei chyflawni ar gyfer archwiliadau cydymffurfiaeth IR(ME)R. | **Rheoliad 7 (4), 11(5** | Bydd y rhaglen yn sicrhau bod yr holl archwiliadau clinigol yn cael eu cwblhau gan ddefnyddio'r dull safonol ac yn gliriach ynghylch y camau dysgu ac a oes angen ailarchwilio.<br><br>Bydd yr amserlenni ailarchwilio yn cael eu cadw'n fyr nes bod cydymffurfiaeth o 100% yn cael ei chyflawni ar gyfer archwiliadau cydymffurfiaeth IR(ME)R. | Rheolwyr Radiograffeg Rhanbarthol | 4 mis |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| **10.** | **Canllawiau Awdurdodi**<br>Nododd yr adolygiad o'r ddogfen, ynghyd â thrafodaethau â rhai aelodau o staff fod angen rhai gwelliannau i'r canllawiau er mwyn eu gwneud nhw'n fwy cadarn. | Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddaru'r canllawiau awdurdodi. Gan sicrhau hefyd bod gan y staff ddealltwriaeth glir o'r broses ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi. Rhaid i dystiolaeth o awdurdodiad gael ei chofnodi a'i harchwilio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag IR(ME)R. | **Rheoliad 10 (4), 11(5)**<br>**Atodlen (1) (b)** | Bydd y rhaglen yn adolygu ac yn diweddaru'r canllawiau awdurdodi fel y manylir i sicrhau bod y broses ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi yn glir.<br><br>Caiff awdurdodiad ei gofnodi a'i archwilio. | DP | 4 mis |
| **11.** | **Gofalwyr neu gysurwyr**<br>Gwnaed awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i wneud Gweithdrefn y Cyflogwr yn fwy cadarn. | Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddaru gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer gofalwyr a chysurwyr yn unol ag adborth yr arolygiad, gyda'r bwriad o'i gwneud yn fwy cadarn. | **Rheoliad 6**<br>**Atodlen 2 (1)(n)** | Bydd y rhaglen yn adolygu ac yn diweddaru Gweithdrefn y Cyflogwr ar gyfer gofalwyr a chysurwyr yn unol ag adborth yr arolygiad. | DP | 4 mis |
| **12.** | **Cyfarpar**<br>Nid oedd y rhestr cyfarpar yn cynnwys yr holl wybodaeth | Rhaid i'r cyflogwr ddiweddaru'r rhestr o'r cyfarpar i gynnwys yr holl | **Rheoliad 15 (2)** | Bydd y rhaglen yn diweddaru'r rhestr o gyfarpar er mwyn cynnwys | DP | 4 mis |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | sydd ei hangen yn IR(ME)R. | ofynion o fewn rheoliadau IR(ME)R. | | yr holl ofynion o fewn rheoliadau IR(ME)R. | | |
| **13.** | **Effeithlon**<br>Nid oedd modd i ni edrych ar bob un o safleoedd Bron Brawf Cymru ond cawsom wybod bod systemau a phrosesau yn gyson ledled Cymru. | Rhaid i'r cyflogwr barhau i sicrhau y caiff gwelliannau eu rhoi ar waith yn gyson ym mhob rhan o Bron Brawf Cymru. | **Rheoliad 6** | Cadarnhau bod y systemau a'r prosesau a arolygwyd yn Abertawe yr un peth â'r prosesau sydd ar waith drwy Bron Brawf Cymru. | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau):**  **Dr Sharon Hillier**

**Teitl swydd: Cyfarwyddwr yr Is-adran Sgrinio**

**Dyddiad:** **27 Mai 2025**